**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel,
Bae Caerdydd CF99 1NA

28 Medi 2016

Annwyl Huw

**Bil Cymru**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Gorffennaf, pan wnaethoch ofyn am farn Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar Fil Cymru.

Cynhaliodd Cynghorwyr Cyfreithiol y Cynulliad sesiwn friffio i'r Pwyllgor ar oblygiadau'r Bil a'r cymalau cadw penodol sy'n berthnasol i waith y Pwyllgor. Er gwybodaeth, rwyf wedi atodi rhestr o'r cymalau cadw hynny i'r llythyr hwn, yn ogystal â disgrifiad o'r effaith y gallant ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Roedd y Pwyllgor hefyd yn ymwybodol o'r pryderon a fynegwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch effaith y Bil ar allu'r Cynulliad i ddeddfu ar yr iaith Gymraeg. Ar 14 Medi, clywsom dystiolaeth lafar gan staff uwch y Comisiynydd am bryderon y Comisiynydd. Amgaeaf lythyr y Comisiynydd at Alun Cairns, dyddiedig 14 Gorffennaf, ynghyd â'r ymateb a gafwyd gan Guto Bebb AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol, a'u gohebiaeth ddilynol. Mae trawsgrifiad o'n sesiwn gyda staff y Comisiynydd wedi'i gyhoeddi ar-lein.

Trafododd y Pwyllgor y Bil eto yn ein cyfarfod ar 22 Medi. Mynegodd yr Aelodau nifer o bryderon am y Bil ar ei ffurf bresennol.

O ran y materion a godwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, roedd y Pwyllgor yn fodlon na fyddai'r Bil yn cael effaith ôl-weithredol ar y broses o roi Mesur y

Gymraeg (Cymru) 2011 ar waith. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn pryderu y gallai'r Bil gyfyngu ar allu'r Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol, ac mai effaith y Bil yn y cyd-destun hwn fyddai dileu rhywfaint o'r cymhwysedd sydd gan y Cynulliad ar hyn o bryd.  Ein dealltwriaeth yw os diwygir Mesur y Gymraeg mewn unrhyw ffordd yn y dyfodol, ar ôl deddfiad Bil Cymru, bydd pwerau'r Cynulliad i ddeddfu yn y maes hwn yn gyfyngedig. Mae hyn yn wir yn achos pryder mawr.

O ran y gofyniad i geisio caniatâd Llywodraeth y DU mewn perthynas â gosod dyletswyddau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg ar gyrff cyhoeddus y DU, awgrymodd un o'r Aelodau y byddai'n ddefnyddiol cynnwys eithriad 'de minimis' o ryw fath yn y Bil.


Mynegodd yr Aelodau bryder hefyd ynghylch y cymal cadw ar ddarlledu. Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod darlledu ar hyn o bryd yn eithriad o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, ymddengys fod y cymal cadw newydd hefyd yn dynodi bod y BBC yn destun cymal cadw penodol ychwanegol, ac nid yw'r rhesymau am hyn yn gwbl glir. Ymddengys fod y drefn hon yn mynd ymhellach na'r eithriad presennol, ac nid yw'n cymryd i ystyriaeth unrhyw dueddiadau ehangach o ran sicrhau bod y BBC a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn atebol yn gyhoeddus i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae hefyd yn awgrymu y byddai'r cymal cadw newydd yn cynnwys pob gweithgaredd gan y BBC, nid y gweithgareddau'n ymwneud â darlledu yn unig. Roeddem hefyd yn pryderu am gynnwys 'cyfryngau eraill' yn y cymal cadw. Eto, mae'n ymddangos bod hwn yn cael yr effaith o gulhau ein cymhwysedd presennol y tu hwnt i ddarlledu.

Yn fwy cyffredinol, roedd Aelodau'r Pwyllgor yn bryderus iawn ynghylch y posibilrwydd y byddai unrhyw gymal cadw yn cael yr effaith o leihau cymhwysedd deddfwriaethol presennol y Cynulliad. Efallai ei bod yn amserol nodi bod pwerau presennol y Cynulliad yn deillio o'r refferendwm a gynhaliwyd yn 2011, ac felly, fel mater o egwyddor, ni ddylai'r Bil arwain at sefyllfa lle bydd gan y Cynulliad llai o bwerau, neu bwerau gwannach, na'r pwerau y pleidleisiodd pobl Cymru drostynt yn y refferendwm. Yn wir, efallai y byddai'n ddefnyddiol cynnwys cymal yn y Bil

sy'n cadarnhau nad bwriad y setliad newydd yw lleihau amrediad neu gwmpas y pwerau a ddatganolwyd i Gymru.

Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn ddefnyddiol. Er gwybodaeth, rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg.

Yn gywir



**Bethan Jenkins AC**
**Cadeirydd**

## ATODIAD - TABL O'R CYMALAU CADW SYDD FWYAF PERTHNASOL I'R PWYLLGOR

| Cymal cadw – Adran a rhif | Disgrifiad | Effaith y cymal cadw ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad |
|---|---|---|
| B16, 54 a 55 | 54 Dosbarthiad ffilmiau a recordiadau fideo (gan gynnwys gemau fideo)<br><br>55 Trwyddedu–<br>darparu adloniant, a lluniaeth hwyr y nos. | Geiriad ychydig yn wahanol i'r eithriad presennol; **lleihad bychan** mewn cymhwysedd. Nid yw "gemau fideo" yn cael eu cynnwys fel eithriad ar hyn o bryd. |
| B17, 56 | Gwerthu a chyflenwi alcohol | Y geiriad ychydig yn ehangach na'r eithriad presennol ond bod yr effaith yn debygol o fod yr un peth. |
| B18, 57 | Betio, hapchwarae a loterïau | Heb ei newid. |
| B22, 61-62 | Elusennau a chodi arian | Ddim yn eithriad o gymhwysedd ar hyn o bryd, felly ymddengys ei fod yn **leihad** mewn cymhwysedd. |
| J6, 153-155 | Materion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch – gan gynnwys diogelwch tân (ac eithrio hyrwyddo diogelwch tân heblaw drwy wahardd neu | Y geiriad yn ehangach na'r eithriad presennol; yr effaith ymarferol yn **aneglur**, yn arbennig pan fydd wedi'i gyfuno â |

| | | |
|---|---|---|
| | reoleiddio). | chyfyngiad arall ar gymhwysedd. |
| K1, 156 a 157 | Darlledu a chyfryngau eraill; y BBC. | Y geiriad yn ehangach na'r eithriad presennol; yr effaith ymarferol yn **aneglur**. |
| K2, 158 | Hawl fenthyca gyhoeddus | Heb ei newid. |
| K3, 159 | Cynllun indemniad y Llywodraeth ar gyfer gwrthrychau sydd ar fenthyg | Heb ei newid. |
| K4, 160 | Eiddo a dderbyniwyd yn lle treth a gwaredu eiddo o'r fath | Y geiriad yn ehangach na'r eithriad presennol – **lleihad** mewn cymhwysedd. |
| K5, 161 | Diogelwch meysydd chwaraeon | Ddim yn eithriad o gymhwysedd ar hyn o bryd – **lleihad** mewn cymhwysedd. |